PWYLLGOR CRAFFU ADOLYGU POLISI A CHRAFFU PERFFORMIAD

DYDD MERCHER, 20 MEDI 2017

| | |
|---|---|
| Yn bressenol: | Cynghorydd Walker(Cadeirydd)<br><br>Cynghorwyr Berman, Bowen-Thomson, Boyle, Cunnah, Mackie, McKerlich a/ac Murphy |

78 : YMDDIHEURIADAU AM ABSENOLDEB

Dim

79 : DATGAN BUDDIANNAU

Dywedwyd wrth yr Aelodau fod ganddynt gyfrifoldeb dan Erthygl 16 Cod Ymddygiad yr Aelodau i ddatgan unrhyw fuddiant ac i gwblhau ffurflenni Buddiant Personol ar ddechrau'r eitem agenda dan sylw.

80 : COFNODION

Cymeradwywyd cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 18 Gorffennaf 2017 fel cofnod cywir.

81 : STRATEGAETH CYLLIDEB 2018/19 A'R TYMOR CANOLIG

Croesawodd y Cadeirydd y Cynghorydd Chris Weaver, yr Aelod Cabinet dros Gyllid, Moderneiddio a Pherfformiad i'w gyfarfod cyntaf yn y Pwyllgor, gyda Christine Salter, Cyfarwyddwr Corfforaethol Adnoddau ac Ian Allwood, Pennaeth Gwasanaeth Ariannol.

Hysbysodd y Cadeirydd y Pwyllgor y byddai'r eitem yma yn rhoi cyfle i Aelodau ystyried strategaeth y Cyngor dros ddatblygu cynigion cyllideb 2018/19 a chynllunio tymor canolig. Byddai hefyd yn rhoi cyfle i Aelodau ystyried amserlen datblygu cynigion a'r modd y dymuna'r Pwyllgor chwarae rhan trwy gydol y flwyddyn.

Gofynnodd y Cadeirydd i'r Cynghorydd Weaver wneud datganiad.

Cyflwynodd y Cynghorydd Weaver ddiweddariad ar y sefyllfa bresennol parthed y bwlch yn y gyllideb. Mae'r rhagdybiaethau a'r tynnu i lawr yn cyfrannu £21.5 miliwn a bydd gofyn i'r Cyngor wneud arbedion o £15 miliwn yn 2018/19.

Gwrandawodd y Pwyllgor ar gyflwyniad a oedd yn nodi'r prif bwyntiau canlynol:

- Gofyn Lleihau'r Gyllideb
  - *Twf Ysgolion*
  - *Cyflog a Chwyddiant prisiau*
  - *Cyllido Cyfalaf, Ymrwymiadau ac Ail-alinio*
  - *Twf demograffig y tu hwnt i Ysgolion*
  - *Pwysau Ariannol ar y Gorwel*
  - *Canlyniadau cyllid Wrth Gefn 2017/18*
  - *Amcan lleihad yn y cyllid gan Lywodraeth Cymru o 1%*

- Strategaeth Cyllideb
  - *Ffurfiwyd Strategaeth y Gyllideb ar bedair rhagdybiaeth gyffredinol*
  - *Rhagdybiaeth 1: Treth Gyngor @ 3.7% y.f.*
  - *Rhagdybiaeth 2: Cyllid Wrth Gefn a Glustnodwyd*
  - *Rhagdybiaeth 3: Twf Ysgolion*

- Trosolwg Strategaeth Cyllideb
  - *Arbedion Cyfarwyddiaeth - £52 miliwn*

- Ymgynghori ac Ymgysylltu

- Cynllun Ariannol y Tymor Canolig – amlinelliad o'r sefyllfa waethaf

- Rhaglen Gyfalaf - Strategaeth
  - *Ymagwedd at ddatblygu blaenoriaethau buddsoddi*

Hysbyswyd y Pwyllgor fod niferoedd disgyblion, a chyflogau yn tyfu a thra'n darparu ar gyfer twf demograffig roedd y cap ar wasgedd wedi ei bennu ar 70% ac roedd disgwyl i ysgolion wneud arbedion effeithlonrwydd o 30%.

Gofynnodd y Pwyllgor am wybodaeth am lefelau cyflogau yn y sector gyhoeddus

Dywedwyd wrth y Pwyllgor y byddai setliad dros dro Llywodraeth Cymru yn cael ei wneud ar 10/10/17. Byddai trefniadau wrth gefn i fynd i'r afael a newidiadau funud olaf yn cael eu rhoi ar waith cyn y setliad terfynol. Byddai dyfarniad cyflog o 1% efallai yn arwain at anawsterau o ran cyllid ond ni fyddai'r codiad cyflog blynyddol arferol yn cael effaith ar y gyllideb.

Roedd Aelodau'r Pwyllgor yn bryderus y byddai codiad i staff o 2% yn cael effaith niweidiol ar y gyllideb ac fe ofynnon nhw am fwy o eglurder ar effaith dod o hyd i £4 miliwn ychwanegol ar gyfer staff nad sy'n dysgu.

Hysbyswyd y pwyllgor fod strategaeth y gyllideb wedi ei datblygu yn seiliedig ar y sefyllfa gyllideb orau bosib o £73.5 miliwn, gyda mwy o waith technegol i'w wneud gan y tîm technegol, a thalu sylw i chwyddiant a newid yn niferoedd y gyflogres. Roedd hi'n hanfodol cadarnhau y niferoedd er mwyn monitro newidiadau i bensiynau, a allasai olygu arbedion posib. Roedd newid yn y polisi o ran cyfrifo'r gyllideb wedi cael effaith. Gorffwyswyd taliadau i raddfeydd cyflog fel rhan o'r cytundeb Statws Sengl a gwireddwyd arbedion.

Roedd Aelodau'r Pwyllgor yn pryderu am faint o ardrethi busnes a gasglwyd gan Gyngor Caerdydd a'i ail-ddosbarthu ar draws Cymru. Roedd yr agenda Digideiddio hefyd yn mynd i gymryd amser i'w adolygu. Dylai gwariant Trydydd Parti o £4 miliwn fod yn £12 miliwn er mwyn cyflymu'r broses yn y flwyddyn gyntaf.

Dywedodd swyddogion wrth y Pwyllgor fod adnewyddu contractau gwariant trydydd parti yn ei le am 3 blynedd am resymau ymarferol ac yn caniatáu creu arbedion cynnar.

Tynnodd y Pwyllgor sylw at y ffaith os nad oedd lleihad yn y cyllid o 1% yn cael ei wireddu a oedd cynlluniau ar y gweill i fynd i'r afael â hyn yn ogystal â'r projectau cyllido cyfalaf oedd ar waith.

Eglurodd Swyddogion nad oedd y rhagdybiaeth ar gyfer yr AEF yn wybyddus gan nad oedd Llywodraeth Cymru wedi darparu'r wybodaeth. Byddid yn edrych ar Raglenni Cyfalaf blaenorol er mwyn cyfarwyddo cyllid ychwanegol, ond doedd dim gwarant. Roedd CLILC wedi darparu gwaith ar fodelu IOS gan y Llywodraeth Ganolog gyda CLILC yn rhoi dadansoddiad ar y sefyllfaoedd posib. Agwedd ddarbodus a fabwysiadwyd gan Gyngor Caerdydd, cynnal ei sefyllfa, gyda rhagdybiaethau yn cael eu gwneud yn y Gwasanaethau Cymdeithasol am amcanestyniadau o orwario. Aed i'r afael â Chyllido Cyfalaf ynghyd â'r Rhaglen Gyfalaf.

Trafododd y pwyllgor y project adnewyddu Asedau ysgolion a sut yr oedd ysgolion am fynd i'r afael â phroblemau y galw. Mewn ymateb hysbyswyd y Pwyllgor fod y Cynllun Datblygu Lleol yn cynnwys datblygu cymunedau newydd, gyda rhagdybiaethau ar waith o safbwynt cyllid i ysgolion newydd y deuai hwnnw o gyllid Adran 106. Roedd rhestr waith cynnal a chadw Ysgolion o £80m yn peri pryder, a byddid yn edrych ar ysgolion oedd yn flaenoriaeth. Parthed Band B, nid oedd yn glir hyd yma beth fyddai Llywodraeth Cymru yn ei gefnogi. Fe ddeuai y bwlch i'r amlwg yn nes at yr amser.

Holodd y pwyllgor ynghylch meintioli mewn termau cyfalaf. Y gwasgedd ar dwf refeniw/Cyfalaf a sut yr oedd y Cyngor yn mynd i'r afael a hyn mewn modd priodol.

Trafododd Aelodau'r Pwyllgor sefyllfa Ysgolion mewn manylder a'r heriau a wynebid gan Ysgolion parthed y sefyllfa gyllido.

Tynnodd y pwyllgor sylw at y ddogfen Uchelgais Prifddinas, a drafodwyd yng nghyfarfod y Pwyllgor fis Gorffennaf, gan holi pa effaith gafodd y broses i gynllunio'r gyllideb ar weithredu'r Uchelgais, gan gynnwys costau ychwanegol, ac a oedd Uchelgais y Brifddinas ar y llwybr cywir i gael ei wireddu ymhen 5 mlynedd.

Sicrhawyd y pwyllgor fod Uchelgais Prifddinas wedi ei gynnwys fel rhan o ariannu'r gyllideb. Roedd hyn yn flaenoriaeth i'r Weinyddiaeth ac fe fyddai yn cael ei gynnwys yn y gyllideb.

PENDERFYNWYD: Ar ddiwedd y cyfarfod trafododd y Pwyllgor y dystiolaeth a gyflwynwyd, ac ar ôl hynny cafodd Cadeirydd y Pwyllgor Craffu Adolygu Polisi a Pherfformiad ei gyfeirio i ysgrifennu at y tystion i ddiolch iddynt am ddod i'r cyfarfod, fel y nodir yn y sylwadau a wnaed gan Aelodau.

82 : POLISI CAFFAEL CYMDEITHASOL GYFRIFOL

Croesawodd y Cadeirydd Reolwr Gweithredol, Comisiynu a Chaffael, Steve Robinson

Hysbysodd y cadeirydd yr Aelodau fod cyfrifoldeb gan y Pwyllgor hwn dros drefniadau caffael a chraffu. Roedd y Cyngor wedi datblygu Polisi Caffael Cymdeithasol Cyfrifol newydd. Mae hwn felly yn gyfle craffu cyn penderfynu i fwydo ein sylwadau i broses benderfynu'r Cabinet.

Esboniodd y Cynghorydd Weaver fod y Cyngor wedi gosod Strategaeth Gaffael 3 blynedd ac roedd hwn yn cynnwys creu Bwrdd Buddion Cymunedol, yn goruchwylio

datblygiad Polisi Cyfrifoldeb Cymdeithasol lletach ynghyd â Siarter, â 6 maes blaenoriaeth.

Gwrandawodd y Pwyllgor ar gyflwyniad a oedd yn nodi'r prif bwyntiau canlynol:

- Cyd-destun Cymreig
- Polisïau a Mentrau Cyngor Caerdydd
- Blaenoriaethau Caffael Cymdeithasol Gyfrifol
- Proses yn ei le i gefnogi cyflawni
- Buddion Cymunedol/Cyflogaeth Foesegol

Hysbyswyd y Pwyllgor o'r chwe blaenoriaeth

- Hyfforddiant a Chyflogaeth Leol
- Agwedd Caerdydd yn Gyntaf
- Partneriaid yn y Gymuned
- Gwyrdd a Chynaliadwy
- Cyflogaeth Foesegol
- Hyrwyddo Llesiant Pobl Ifanc ac Oedolion Agored i Niwed

Tynnodd y Pwyllgor sylw at enghreifftiau a roddwyd yn Birmingham a holwyd sut y gallai Caerdydd ddysgu o hyn, gan gynnwys costau gweithredu.

Hysbyswyd Aelodau'r Pwyllgor yn dilyn dadansoddiad o'r adborth y farn oedd fod Cymru eisoes yn cyflawni yn y maes hwn gyda thystiolaeth o arfer da a buddion cymunedol. Hefyd defnyddiwyd agwedd Dinas Graidd i fesur perfformiad a datblygu heriau ochr yn ochr â busnesai llai yn erbyn y cwmnïau mwy. Roedd cymorth parhaus a datblygu yn ei le i gael y gorau ar bethau yn y maes hwn.

Trafodwyd y broses oedd yn ei lle i fynd i'r afael â sefydliadau o faint gwahanol. Sefydlwyd siarter drws agored i gefnogi hyn gyda chwmnïau bach yn cael eu hannog i gynig am waith a datblygu'r gadwyn gyflenwi. Roedd buddion cymunedol yn cael eu gwireddu, yn enwedig ym maes cynnal a chadw adeiladu lle roedd prosiectau lleol yn derbyn cymorth ar lefel leol.

Hysbyswyd y Pwyllgor am y costau a ysgwyddwyd y llynedd er mwyn cefnogi busnesau bach a chanolig yng Nghaerdydd, a sut i ddatblygu cadwyni cyflenwi. Roedd cytundebau mwy hefyd yn cael eu datblygu a'u hannog fel rhan o'r broses. Roedd hyn yn cael ei yrru gan Lywodraeth Cymru fel rhan o'r gwasanaeth Caffael Cenedlaethol – i brynu dros Gymru. Byddai'r polisïau a'r gweithdrefnau hyn yn cael eu rhannu gyda sefydliadau trydydd sector.

Holodd aelodau ynghylch y gofynion ychwanegol ar staff yn gweithredu'r polisi a dywedwyd ei fod ar adegau yn her, ond bod cael un polisi cydlynol yn dod â staff ynghyd. Roedd rheoli contractau ar draws y Cyngor yn cael ei fonitro, ac roedd angen gwelliant mewn rhai meysydd.

Holodd y Pwyllgor am dystiolaeth o gontractau a roddwyd ar sail ymagweddau moesegol yn hytrach na chostau prisio. Sicrhawyd y Pwyllgor nad oedd pob contract yn cael eu rhoi ar sail pris yn unig a bod ansawdd tendrau yn cael eu dadansoddi bob amser. Cafwyd newid yn y drefn gaffael, gyda phwyslais cryfach ar gyflogaeth foesegol. Ystyriwyd gwerth cymdeithasol yn ogystal fel rhan o'r cam i ddewis a rhoi

contract.  Roedd disgwyl i sefydliadau ateb nifer sylweddol o wiriadau gan gynnwys Cyflog Byw/

PENDERFYNWYD: Ar ddiwedd y cyfarfod trafododd y Pwyllgor y dystiolaeth a gyflwynwyd, ac ar ôl hynny cafodd Cadeirydd y Pwyllgor Craffu Adolygu Polisi a Pherfformiad ei gyfeirio i ysgrifennu at y tystion i ddiolch iddynt am ddod i'r cyfarfod, fel y nodir yn y sylwadau a wnaed gan Aelodau.

83 : POLISI IECHYD MEDDWL A CHANLLAWIAU RHEOLWYR

Croesawodd y Cadeirydd Brif Swyddog Adnoddau Dynol sef Philip Lenz a Phartner Pobl Adnoddau Dynol, Anita Batten.  Yn ychwanegol roedd yr Undeb Llafur UNSAIN wedi gyrru Helen Jones draw, aelod gynrychiolydd â chanddi brofiad rheng flaen o'r modd y mae'r Cyngor yn mynd i'r afael â Iechyd Meddwl.

Hysbysodd y Cadeirydd yr Aelodau mai cyfle craffu cyn penderfynu oedd hwn, archwilio Polisi Iechyd Meddwl drafft newydd y Cyngor cyn iddo gael ei ystyried gan y Cabinet a'i fabwysiadu gan y Cyngor.

Nododd y Cynghorydd Weaver fod y Cyngor fel rhan o'i Strategaeth Iechyd a Llesiant Cyflogeion wedi ymrwymo i  hyrwyddo a chynnal iechyd meddwl a llesiant pob cyflogai trwy arferion yn y gweithle.

Gwrandawodd y Pwyllgor ar gyflwyniad a oedd yn nodi'r prif bwyntiau canlynol:

- Cyd-destun
- Absenoldebau yn ymwneud â Straen 2016/17
- Nod y Polisi
- Polisïau Cysylltiedig
- Cefnogi Mentrau a Hyfforddiant

Pwysleisiodd y Pwyllgor bwysigrwydd bod cyflogwyr yn adnabod arwyddion straen yn fuan, a bod y sgiliau angenrheidiol ganddynt i fynd i'r afael â'r materion mewn modd sensitif.

Hysbyswyd Aelodau'r Pwyllgor fod Gwasanaethau Adnoddau Dynol yn cynnig y gwasanaeth Iechyd Galwedigaethol, ynghyd a Rhaglen Rheoli Straen i gefnogi cyflogeion.  Byddai achos y straen yn cael ei adnabod a byddai hynny yn dibynnu ar y rheolwr perthnasol.

Trafodwyd yr hyfforddiant oedd ar gael gan Academi Caerdydd, a'r Undebau Llafur yn gofyn am well hyfforddiant.

Croesawodd y Pwyllgor Helen Jones, aelod UNSAIN, i roi datganiad.

Pwysleisiodd Helen Jones bwysigrwydd y gwelliant yn y cymorth iechyd meddwl yn y Cyngor.  Roedd mwy o bobl yn cael eu hannog i siarad am eu problemau ac roedd hyn yn galluogi cymorth a chyngor fwy eglur a chryno i gael ei gynnig.

Rhoddodd Helen Jones enghraifft o'r problemau yr oedd hi wedi eu hwynebu i'r Pwyllgor pan yn wynebu rhai agweddau penodol yn y gweithle.

Tynnodd y Pwyllgor sylw at faterion hyfforddiant iechyd meddwl ar hyn o bryd gan nad oedd y broses i'w gweld yn un cyson.  Dylid datblygu rhaglen hyfforddi ffurfiol a dylai fod yn orfodol ar bob rheolwr.  Roedd rhwydwaith gymorth bresennol y Cyngor i gyflogeion oedd dan straen yn annigonol ac fe holodd aelodau beth oedd y rhestr aros ar hyn o bryd i gyflogai oedd am wasanaeth cwnsela.

Hysbyswyd yr Aelodau fod Rhaglen CareFirst yn weithredol y gallai cyflogeion gael mynediad buan ato a'i fod yn system Cymorth Cyflogeion 24/7.  Roedd Gwasanaeth Cwnsela Cyflogeion y Cyngor ei hun yn effeithiol ac yn cefnogi staff, ond fod yna broblem gydag amseroedd aros.  Roedd partneriaeth gyda'r GIG ar waith i sicrhau mynediad buan i gyflogeion i'r system gyda 10 o sesiynau.  Cydnabuwyd y gallai mwy o gymorth gael ei roi i gyflogeion a bod rhaglenni ychwanegol yn cael eu datblygu.

Roedd Aelodau n pryderu nad oedd unrhyw sôn am waith ataliol.  Dylai bod Asesiad Risg ar waith i gefnogi gweithdrefnau Safonau Straen 2005 y Gweithgor Iechyd a Diogelwch.  Ychydig o dystiolaeth oedd ar gael i awgrymu fod gwaith ataliol yn ei le i gefnogi cyflogeion a bod gwaith ychwanegol yn y maes hwn yn hanfodol.

Sicrhawyd y Pwyllgor fod Polisi Rheoli Straen yn ei le a ddefnyddid wrth baratoi Asesiadau Risg.

Croesawodd y Pwyllgor y sylwadau a'r polisïau oedd ar waith i gefnogi cyflogeion. Fodd bynnag, roedd hi'n hanfodol creu diwylliant adnabod ymyrraeth gynnar cyn gynted ag y bo modd.  Dylid datblygu diwylliant rheoli i gefnogi cyflogeion a dylid nodi straen wrth fonitro perfformiad personol.

Hysbyswyd y Pwyllgor mai Strategaeth Iechyd a Llesiant Cyflogeion oedd y polisi cyffredinol i ddatblygu diwylliant o fewn y sefydliad.  Roedd ei brif ffocws ar iechyd a llesiant staff gyda chyfathrebiadau rheolaidd i gyflogeion ar yr hyn oedd gan y Cyngor i'w gynnig parthed cymorth.  Roedd y Cyngor wedi cyrraedd Safon Iechyd Efydd a bellach yn anelu am yr Arian.  Byddai Adolygiadau Perfformiad Personol yn llai ffurfiol a gellid nodi a thrafod problemau yn y sesiynau hyn.

Tynnodd Aelodau sylw at Bodlediadau y Sefydliad iechyd Meddwl oedd ar gael ar-lein gyda thechnegau anadlu 10 munud.  Roedd y podlediadau yn rhwydd eu cyrchu ac ar gael am ddim.

Pwysleisiodd y Pwyllgor bwysigrwydd y Polisi Camddefnyddio Sylweddau Alcohol a Chyffuriau a'r modd y cai hwn ei fonitro yn y sefydliad yn enwedig mewn ardaloedd lle roedd staff yn gweithredu offer.  Mewn ymateb hysbyswyd yr Aelodau fod cynlluniau yn eu lle i nodi ac adnabod arwyddion pan allasai staff fod wedi eu heffeithio a bod gweithdrefnau yno i gefnogi.

Awgrymodd y pwyllgor fod angen cydbwysedd rhwng cefnogaeth a pherfformiad. Dylid ystyried ac edrych ar sgiliau hyfforddi ledled y Cyngor.

PENDERFYNWYD: Ar ddiwedd y cyfarfod trafododd y Pwyllgor y dystiolaeth a gyflwynwyd, ac ar ôl hynny cafodd Cadeirydd y Pwyllgor Craffu Adolygu Polisi a Pherfformiad ei gyfeirio i ysgrifennu at y tystion i ddiolch iddynt am ddod i'r cyfarfod, fel y nodir yn y sylwadau a wnaed gan Aelodau.

84 : RHAGLEN WAITH

Derbyniodd y Pwyllgor y Rhaglen Waith ar gyfer 2017-18.

Trafododd y Pwyllgor eitemau ar gyfer y rhaglen a oedd yn cynnwys:

- Cyllideb
- Strategaeth Gorfforaethol
- Digideiddio
- Swyddfa Archwilio Cymru
- Rhaglen Newid
- Strategaeth rhyngwladol – Trydydd Sector
- Rheoli Perfformiad
- Monitro Cyllideb

Trafodwyd Gorchwyl a Gorffen a chytunwyd ar y canlynol:

Aelodaeth Arweinyddiaeth Cwsmer Gorchwyl a Gorffen:
Cynghorwyr Walker (Cadeirydd), Bowen-Thompson, Berman a Cunnah.

Aelodaeth Ystâd Weithredol Gorchwyl a Gorffen:
Cynghorwyr Boyle (Cadeirydd), Mackie, McKerlich a Murphy.

Panel Perfformiad:
Cynghorwyr Mackie, Bowen-Thompson, Murphy a Boyle

85 : UNRHYW FUSNES ARALL A DYDDIAD Y CYFARFOD NESAF

4 Hydref 2017